ceca

Working for Infrastructure
Adeiladwaith yw'n Gwaith

# Annual Review
2018-19

# Adolygiad Blynyddol
2018-19



# About Us

The Civil Engineering Contractors Association (CECA) Wales represents 60 of Wales' largest and smallest civil engineering contracting businesses with a cumulative annual turnover in excess of £1bn and employing over 6,000 people. These businesses play a huge part in supporting communities across Wales and make a significant contribution to the economic prosperity of our nation. Our members are also major providers of training and apprenticeship opportunities.

On a more fundamental level it is our members who will build the infrastructure that our nation needs to prosper.

Ed.Evans@cecawales.co.uk
07717 687088 • 029 2081 1116
www.ceca.co.uk @ceca_wales

## The CECA Wales Annual Review 2018-19 What should it tell you?

This report reflects on the last 12 months and how things have been for civil engineering contractors in Wales. It highlights how CECA Wales has sought to address the priorities of the membership over the last 12 months, how it has furthered the interests of civil engineering contracting businesses and how it has contributed to the greater wellbeing of Wales through better infrastructure.

Importantly this report also offers a glimpse of what the next 12 months could hold for the industry and our members.

This Annual Review can be accessed via

www.ceca.co.uk/wales/publications/



# Gair Amdanom Ni

Mae Cymdeithas Contractwyr Peirianneg Sifil (CECA) Cymru yn cynrychioli 60 o fusnesau mwyaf a lleiaf Cymru ym maes contractio peirianneg sifil. Gyda'i gilydd, mae ganddynt drosiant blynyddol o fwy na biliwn o bunnau ac maent yn cyflogi dros 6,000 o bobl. Mae'r busnesau hyn yn chwarae rhan enfawr yn cefnogi cymunedau ledled Cymru ac yn gwneud cyfraniad sylweddol at ffyniant economaidd ein gwlad. Yn ogystal, mae ein haelodau'n cynnig llu o brentisiaethau a chyfleoedd am hyfforddiant.

Ar lefel fwy sylfaenol, ein haelodau ni fydd yn adeiladu'r seilwaith y mae ar ein cenedl ei angen er mwyn bod yn wlad lewyrchus.

Ed.Evans@cecawales.co.uk
07717 687088 • 029 2081 1116
www.ceca.co.uk @ceca_wales

## Adolygiad Blynyddol CECA Cymru 2018-19
## **Beth ddylai'r adolygiad ei ddweud wrthych?**

Mae'r adroddiad yn edrych yn ôl ar y 12 mis diwethaf a'r sefyllfa ar gyfer contractwyr peirianneg sifil yng Nghymru. Mae'n dangos sut y mae CECA Cymru wedi ceisio ymateb i flaenoriaethau'r aelodau dros y 12 mis diwethaf, sut y mae wedi hyrwyddo buddiannau busnesau contractio peirianneg sifil a sut y mae wedi cyfrannu at wella llesiant Cymru trwy sicrhau gwell seilwaith.

Rhan bwysig o'r adroddiad hwn yw ei fod yn rhoi cipolwg ar yr hyn y gallai'r 12 mis nesaf ei gynnig i'r diwydiant ac i'n haelodau.

Cewch weld ein Hadolygiad Blynyddol trwy fynd i

www.ceca.co.uk/wales/publications/



# Reflections of the Chairman

Reflecting on the last 12 months feels a bit like Groundhog Day!

The demise of Carillion and the pressures on contractors, whilst dreadful news for those losing their jobs, also sent shockwaves across the industry and brought into question the way we do business. It's been particularly depressing in Wales given the loss of one of our larger indigenous contractors, Dawnus. This has shone the spotlight on the low margins that many businesses are working to, the high levels of risk that are being dumped on supply chains and the difficulties in accessing finance. Unfortunately, Brexit and ongoing austerity measures continue to depress construction activity and delays or cancellations to major projects dents confidence.

However, as I come to the end of my term as Chair, we need to look for the positives. This remains a great industry to be part of with great career opportunities. People remain the lifeblood of our sector and I'm pleased that we're developing new qualifications and career pathways with our partners to suit a range of abilities which will open up the sector to a greater diversity of people. We've also established our CECA Wales Foundations Group to give our younger members a greater say and our annual Leadership Challenge for our CECA Wales Awards nominees goes from strength to strength as does our partnership with the Armed Services.

But, there's no doubt that we need to improve our productivity as a sector and, with the 4th Industrial Revolution upon us and increased automation and the use of digital technologies promising to transform the way we do things, we need to get ahead of the game. The way we do business just isn't sustainable which is why we're exploring new ways of working such as "Project 13" which proposes a far more collaborative approach. And, of course, we continue to battle on to improve the way clients procure work which far too often runs counter to increasing productivity and social value.

We hear time and time again of the importance of the foundation economy to Wales. The construction sector is a key part of this, employing over 130,000 across our nation and representing about 7% of Wales' GVA. We recruit, train and upskill thousands of people every year but we need to be better valued by government and wider society as a fundamental contributor to Wales' economic prosperity.

Let's not forget that this is an exciting industry to be part of with endless opportunities. There's lots to be positive about!

**Gwyn Pardoe,**
**Chairman CECA Wales**

# Views from the Director


It's easy to look back over the last 12 months and reflect on another year of delay and disappointment. Infrastructure projects stalling or, in some cases, being cancelled completely. This needs to change if Wales is to benefit from the opportunities that new and improved infrastructure brings. But governments need to better value the sector too!

That said, for me, the last 12 months has been about driving forward our strategic priorities : People, Procurement, Partnerships, and, of course, Promoting our industry.  Underpinning all of this is the need to improve our productivity and profitability. As we move towards the 4th industrial revolution we need to embrace the opportunities of increased automation, digital technologies and newer ways of delivering construction.

The Wellbeing of Future Generations Act gives us, in Wales, an unique opportunity to reshape the conversations about our future infrastructure. Our report "Transporting Our Future Generations", launched at the Senedd with the Future Generations Commissioner, Sophie Howe, and Jack Sargeant AM, demonstrates the commitment that CECA Wales is making to the Act and how we will support the sector in meeting the challenges ahead.

We have made progress as this report confirms and that progress will continue throughout 2019 and beyond.

**Ed Evans,**
**Director, CECA Wales**



# Meddyliau'r Cadeirydd

Wrth edrych yn ôl dros y flwyddyn ddiwethaf, gallwn feddwl am ribidires o broblemau!

Roedd tranc Carillion a'r pwysau ar gontractwyr yn newyddion erchyll i'r rhai a gollodd eu swyddi ond cafodd effaith ar draws y diwydiant hefyd a chododd gwestiynau am ein ffordd o weithredu. Roedd y sefyllfa'n arbennig o ddigalon yng Nghymru gan i ni golli un o'n contractwyr cynhenid mwyaf, Dawnus. Mae hyn wedi tanlinellu cyn lleied yw elw llawer o fusnesau, cymaint o risg y mae cadwyni cyflenwi'n ei wynebu a pha mor anodd yw cael benthyciadau. Gwaetha'r modd, mae Brexit a pholisïau llymder y Llywodraeth yn dal i olygu nad oes cymaint o waith adeiladu'n digwydd ac, wrth i brosiectau mawr gael eu gohirio neu eu canslo, mae'n dolc i'r hyder.

Fodd bynnag, wrth i mi gyrraedd diwedd fy nhymor yn y Gadair, mae angen i ni chwilio am yr agweddau cadarnhaol. Mae hwn yn dal yn ddiwydiant gwych i berthyn iddo ac mae cyfleoedd ardderchog am yrfaoedd. Pobl yw enaid ein sector ni ac rwy'n falch ein bod ni a'n partneriaid yn datblygu cymwysterau a llwybrau gyrfa newydd a fydd yn addas ar gyfer pobl â gwahanol alluoedd, gan agor y sector i bob math o bobl. Yn ogystal, rydym wedi sefydlu Grŵp Sylfeini CECA Cymru i roi mwy o lais i'n haelodau ifanc ac mae ein Her Arweinyddiaeth flynyddol ar gyfer y rhai a enwebir am Wobrau CECA Cymru a'n partneriaeth gyda'r Lluoedd Arfog yn mynd o nerth i nerth.

Ond, yn bendant, mae angen i ni fel sector fod yn fwy cynhyrchiol a, gan fod y 4ydd Chwyldro Diwydiannol ar y trothwy a'r cynnydd mewn awtomeiddio a thechnolegau digidol yn addo trawsnewid ein ffordd o weithio, mae angen i ni fod yn barod. Nid yw'n ffordd ni o weithredu yn gynaliadwy ac felly rydym yn ystyried ffyrdd newydd o weithio fel "Prosiect 13" sy'n cynnig llawer mwy o gydweithredu. Ac, wrth gwrs, rydym yn dal i ymdrechu i wella'r ffordd y mae cleientiaid yn caffael gwaith, gan ei bod yn rhy aml o lawer yn mynd yn groes i'r nod o wella cynhyrchiant a gwerth cymdeithasol.

Clywn yn aml am bwysigrwydd yr economi sylfaenol i Gymru. Mae'r sector adeiladu'n rhan allweddol o hyn. Mae'n cyflogi dros 130,000 ledled Cymru ac yn gyfrifol am ryw 7% o werth ychwanegol gros (GVA) y wlad. Rydym yn recriwtio, yn hyfforddi ac yn dysgu sgiliau i filoedd o bobl bob blwyddyn ond mae angen i'r llywodraeth a'r gymdeithas ehangach ein gwerthfawrogi'n well fel cyfrannwr sylfaenol at ffyniant economaidd Cymru.

Rhaid i ni gofio bod hwn yn ddiwydiant cyffrous i fod yn rhan ohono a'i fod yn cynnig cyfleoedd di-ri. Mae llawer i fod yn gadarnhaol yn ei gylch!

Gwyn Pardoe,
Cadeirydd CECA Cymru

# Syniadau'r Cyfarwyddwr

Mae'n hawdd edrych yn ôl dros y 12 mis diwethaf a meddwl am flwyddyn arall o oedi a siom. Prosiectau seilwaith yn cael eu dal yn ôl neu hyd yn oed eu canslo'n llwyr. Mae angen i hyn newid os yw Cymru i elwa ar y cyfleoedd a ddaw yn sgil seilwaith newydd a gwell. Ond mae angen i lywodraethau werthfawrogi'r sector yn well hefyd!

Ar ôl dweud hynny, i mi, mae'r 12 mis diwethaf wedi bod yn llawn cyfleoedd i hyrwyddo ein blaenoriaethau strategol: Cefnogi Pobl, Caffael, Cydweithio ac, wrth gwrs, Codi Proffil ein diwydiant. Yn sylfaen ar gyfer hyn i gyd, mae'r angen i fod yn fwy Cynhyrchiol a Chynyddu Proffidioldeb. Wrth i ni symud i gyfeiriad y pedwerydd chwyldro diwydiannol mae angen i ni gofleidio'r cyfleoedd a ddaw gyda chynnydd mewn awtomeiddio, technolegau digidol a ffyrdd newydd o wneud gwaith adeiladu.



Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi i ni, yng Nghymru, gyfle unigryw i ailwampio'r sgyrsiau am ein seilwaith o hyn ymlaen. Mae ein hadroddiad "Cludo Cenedlaethau'r Dyfodol", a lansiwyd yn y Senedd gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Sophie Howe, a Jack Sargeant AC, yn dangos ymrwymiad CECA Cymru i'r Ddeddf a sut y byddwn yn helpu'r sector i wynebu'r heriau sydd o'n blaen.

Rydym wedi symud ymlaen fel y mae'r adroddiad hwn yn cadarnhau a byddwn yn dal i symud ymlaen trwy gydol 2019 a'r tu hwnt.

Ed Evans,
Cyfarwyddwr, CECA Cymru

# The "4-P's" our themes for the last 12 months and how did we do?

We agreed 4 themes for 2018 which reflected areas of focus for the industry. We've called these the "4-P's".

# Y "pedair C" ein themâu ar gyfer y 12 mis diwethaf a pha mor dda wnaethom ni

Cytunwyd ar bedair thema ar gyfer 2018 a oedd yn adlewyrchu meysydd blaenoriaeth yn y diwydiant. Rydym wedi galw'r rhain yn "bedair C".

**1**
**Promotion**
*Codi Proffil*

**2**
**Procurement**
*Caffael*

**3**
**People**
*Cefnogi Pobl*

**4**
**Partnerships**
*Cydweithio*

Underpinning each of these themes is **Productivity** and **Profitability**

*Yn sylfaen i bob un o'r themâu hyn mae **Cynhyrchiant** a **Chynyddu Proffidioldeb**.*

We know that investment in infrastructure filters its way right through to our local communities to the tune of **£2.84** for every **£1** spent

*Gwyddom fod yr arian a fuddsoddir mewn seilwaith yn hidlo'i ffordd i lawr i'n cymunedau lleol, gan ddarparu **£2.84** am bob **£1** sy'n cael ei gwario*

"The sector contributes **7%** to Wales' GVA (gross value added)"

*"Mae'r sector yn cyfrannu **7%** at GVA Cymru (gwerth ychwanegol gros)"*

# 1 Promotion: Valuing Infrastructure

We know the value of the civil engineering contracting sector to our economy, our environment and our communities. We see that in the people we employ and train and through the goods and services we procure through our supply chains. We see it in the communities which benefit from the infrastructure that we deliver and we see it in the improvements to our environment.

**But we need to be sure that others know this too!**

We continue to raise the profile of CECA Wales amongst clients, politicians and policy makers and our website is becoming more visible as a means of sharing information especially when coupled with our increasing use of social media.




Following our 2018 Annual Conference we produced our report "Transporting Our Future Generations" which sets out the challenges and opportunities for the infrastructure sector in meeting the requirements of the Wellbeing of Future Generations Act. We were pleased to welcome Jack Sargeant AM and the Future Generations Commissioner, Sophie Howe, to launch the report at the Senedd. This is an important marker for CECA Wales as we demonstrate clearly the commitment of our members to supporting this groundbreaking and unique piece of Welsh legislation.

# 1 Codi proffil: Gwerthfawrogi Seilwaith

Rydym ni'n gwybod pa mor werthfawr yw'r sector contractio peirianneg sifil i'n heconomi, ein hamgylchedd a'n cymunedau. Gwelwn ni hynny yn y bobl rydym yn eu cyflogi ac yn eu hyfforddi a thrwy'r nwyddau a'r gwasanaethau rydym yn eu caffael trwy ein cadwyni cyflenwi. Fe'i gwelwn yn y cymunedau sy'n elwa ar y seilwaith a ddarparwn ac fe'i gwelwn yn y gwelliannau i'n hamgylchedd.


**Ond mae angen i ni sicrhau bod eraill yn gwybod hyn hefyd!**

Rydym yn dal i godi proffil CECA Cymru ymhlith cleientiaid, gwleidyddion a gwneuthurwyr polisïau ac mae'n gwefan yn dod yn fwyfwy gweladwy fel ffordd o rannu gwybodaeth, yn enwedig ar y cyd â'n defnydd cynyddol o'r cyfryngau cymdeithasol.

www.ceca.co.uk

@ceca_wales


Ar ôl ein Cynhadledd Flynyddol yn 2018, aethom ati i gynhyrchu'n hadroddiad "Cludo Cenedlaethau'r Dyfodol" sy'n amlinellu'r heriau a'r cyfleoedd ar gyfer y sector seilwaith o ran bodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Roedd yn braf cael croesawu Jack Sargeant AC a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Sophie Howe, i lansio'r adroddiad yn y Senedd. Mae hyn yn garreg filltir bwysig i CECA Cymru gan ein bod yn dangos yn glir gymaint yw ymrwymiad ein haelodau i gefnogi'r darn arloesol ac unigryw hwn o ddeddfwriaeth Cymru.








# 2 Procurement




Public procurement remains "a difficult nut to crack" for civil engineering contractors. Public sector "austerity" continues to drive unhelpful behaviours such as short-termism, adversarial relationships and an unhealthy approach to risk transfer, rather than shared management of risk, which does nothing for the public purse. Combined with a process which is, so often, bureaucratic, costly and time consuming it makes for an unhappy environment. That's why streamlining the process of bidding for work, making it more efficient and effective, has been a key priority for CECA Wales, and it's why our report, Streamlining Public Procurement, has enabled discussions with key clients across Wales to seek a way forward.

## Opportunities for improvement




Social value through procurement continues to feature heavily in Welsh Public Procurement Policy and, despite a current Welsh Government review, it is expected to remain a prominent part of policy. The truth is the whole community benefits agenda in Wales has plateaued some time ago and we're missing opportunities to squeeze more value from investment. That's why CECA Wales have proposed a new model to change the way social value is delivered in Wales and this was captured in an article by the Director to the Bevan Foundation. We will continue to work with procurers to take this model forward.






“Public procurement remains **a difficult nut to crack”**

*“Mae caffael cyhoeddus yn dal* ***yn broblem ddyrys iawn”***

## 2 Caffael

Mae caffael cyhoeddus yn dal y broblem ddyrys iawn i gontractwyr peirianneg sifil. Mae “llymder” yn y sector cyhoeddus yn dal i hybu ymddygiad di-fudd fel cynllunio ar gyfer y tymor byr yn unig, gwrthdaro ac agwedd anffodus at drosglwyddo risg, yn hytrach na rheoli risg ar y cyd, ac nid yw hynny’n lles i’r pwrs cyhoeddus. Yn ogystal, mae’r broses yn aml yn fiwrocrataidd, yn gostus ac yn araf gan greu amgylchedd diflas. Dyna pam y mae CECA Cymru wedi rhoi blaenoriaeth i symleiddio’r broses o ymgeisio am waith, gan ei gwneud yn fwy effeithlon, a pham hefyd y mae ein hadroddiad, Symleiddio Caffael Cyhoeddus, wedi hwyluso trafodaethau gyda chleientiaid allweddol ledled Cymru er mwyn ceisio canfod ffordd ymlaen.




## Cyfleoedd i wella

Mae sicrhau gwerth cymdeithasol trwy gaffael yn dal yn rhan fawr o Bolisi Caffael Cyhoeddus Cymru ac, er bod Llywodraeth Cymru wrthi’n adolygu’r sefyllfa, disgwylir y bydd yn dal yn rhan amlwg o’r polisi. Y gwir yw nad yw’r agenda manteision cymunedol yng Nghymru wedi symud ymlaen ers peth amser a’n bod yn colli cyfleoedd i wasgu mwy o werth o fuddsoddiadau. Dyna pam y mae CECA Cymru wedi cynnig model newydd i newid y ffordd y cyflenwir gwerth cymdeithasol yng Nghymru ac fe nodwyd hyn mewn erthygl gan y Cyfarwyddwr ar gyfer Sefydliad Bevan. Byddwn yn dal ati i gydweithio â sefydliadau sy’n caffael i symud ymlaen â’r model hwn.


Improving social value through investment in infrastructure

# 3 People

**It's people that make this industry. That's why it's so important that we attract the right people to the industry, support their development and ensure their health, safety and wellbeing.**

## Attracting people to the industry

Last year we launched our initiative to "Attract the brightest and the best". This was all about recognising the need for matching people with the incredible opportunities this sector offers, addressing the gender imbalance of the workforce, increasing diversity and meeting the pressures of an ageing workforce.

A fundamental part of this has been the development of a career route-map for civil engineering contractors showing how people can join the sector at various stages in their lives, develop themselves and pursue a rewarding career.

### Trades-based Career Pathway

Foundation Apprenticeship "Built Environment" → Civil Engineering (CE) Operative Apprentice → Advanced CE Operative Apprentice → Site Agent → Contracts Manager → Contract Director

We're working closely with Qualifications Wales, as part of their review into qualifications in the Construction and Built Environment sector, to develop specific "built environment" GCSE and "A"-level qualifications. This will make attracting young people much clearer. Alongside this is the "Foundation" apprenticeship for vocational learners which will encourage those with trades-based preferences to enter the sector. Ensuring that civil engineering features heavily in these qualifications has been a key role for CECA Wales.




We're inputting to specific CITB funded projects on "contextualising the curriculum" and "schools engagement" to provide resources for contractors to help deliver the curriculum in schools and colleges. This will support their Corporate Social Responsibilities (CSR) as well as linking to the "community benefits" clauses which form part of so many public sector contracts. These resources will be available via CITB's "GoConstruct" portal. And we're working with Careers Wales, through careers fairs and supporting their Education Business Exchange (EBE), to reach a wider range of potential entrants to the sector and link them up with employers.

"Our aim is to attract recruits and persuade parents and teachers of the value of a career in civil engineering contracting"



*“Ein nod yw denu pobl ifanc a darbwyllo rhieni ac athrawon o werth gyrfa ym maes contractio peirianneg sifil”*

# 3 Cefnogi Pobl

**Pobl yw asgwrn cefn y diwydiant hwn. Dyna pam y mae mor bwysig i ni ddenu’r bobl iawn i’r diwydiant, cefnogi eu datblygiad a gofalu am eu hiechyd, eu diogelwch a’u lles.**


## Denu pobl i’r diwydiant

Y llynedd, fe wnaethom ni lansio cynllun i “Ddenu’r disgleiriaf a’r gorau”. Y bwriad oedd cydnabod yr angen i baru pobl â’r cyfleoedd anhygoel y mae’r sector hwn yn eu cynnig, mynd i’r afael â’r anghydbwysedd rhwng dynion a merched yn y gweithlu, cynyddu amrywiaeth, ac ymateb i’r pwysau a achosir gan fod y gweithlu’n heneiddio. Fel rhan sylfaenol o hyn, datblygwyd map gyrfa ar gyfer contractwyr peirianneg sifil yn dangos sut y gall pobl ymuno â’r sector ar wahanol gyfnodau yn eu bywyd, datblygu eu hunain a dilyn gyrfa sy’n rhoi boddhad iddynt.

### Llwybr Gyrfa Sail-Crefft

**Prentisiaeth Sylfaen “Amgylchedd Adeiledig”** → **Prentis Gweithiwr Peirianneg Sifil (PS)** → **Prentis PS Uwch** → **Asiant Safle** → **Rheolwr Contractau** → **Cyfarwyddwr Contractau**

Rydym yn cydweithio’n agos â Cymwysterau Cymru, fel rhan o’u hadolygiad o gymwysterau yn y sector Adeiladu a’r Amgylchedd Adeiledig, i ddatblygu cymwysterau penodol ar gyfer TGAU a Lefel A yn yr “amgylchedd adeiledig”. Bydd hyn yn gwneud y broses o ddenu pobl ifanc yn gliriach o lawer. Ochr yn ochr â hyn mae “Prentisiaeth Sylfaen” ar gyfer dysgwyr galwedigaethol a fydd yn annog pobl sy’n dymuno dysgu crefft i ddod i mewn i’r sector. Bu gan CECA Cymru ran allweddol yn sicrhau bod cryn dipyn o sylw’n cael ei roi i beirianneg sifil yn y cymwysterau hyn.




Rydym yn cyfrannu at brosiectau penodol a ariannir gan y CITB ar “gyd-destunoli’r cwricwlwm” ac “ymgysylltu ag ysgolion” er mwyn darparu adnoddau fel y gall contractwyr helpu i gyflenwi’r cwricwlwm mewn ysgolion a cholegau. Bydd hyn yn cefnogi eu Cyfrifoldebau Cymdeithasol Corfforaethol (CSR) ac yn gysylltiedig â’r cymalau “manteision cymunedol” sy’n rhan o gynifer o gontractau’r sector cyhoeddus. Bydd yr adnoddau hyn ar gael trwy borthol “AmAdeiladu” y CITB. Ac rydym yn cydweithio â Gyrfa Cymru, trwy ffeiriau gyrfaoedd a thrwy gefnogi eu Cyfnewidfa Addysg Busnes (EBE), i gyrraedd pobl mwy amrywiol a allai gael eu denu i’r sector a’u paru â chyflogwyr.



## Supporting the development of our people

Once we have the right people in place we need to support their development.

Having a clear career pathway in place was the starting point. Ensuring we have the right training programmes, apprenticeships and qualifications in place is the next step.

The development of specific “built environment” GCSEs, “A”-levels and Foundation qualifications was the first part of the development route for our people – and this is happening with Qualifications Wales. For those pursuing a “trades-based” route the next stage was to have a high quality civil engineering groundwork/plant operative apprenticeship in place and this provision is now in place across much of Wales. Building on this we are supporting the development of an Advanced Civil Engineering Operative apprenticeship for those “trades” based workers who wish to progress within their trade or into ganger and foremen roles. So, a clear career pathway for CECA Wales members is emerging and we will build on this over the next 12 months.




We have also extended our own training and development programme for our members focusing on contractual skills, new Welsh-specific legislation, mock trials and political awareness.

And finally, we have established our CECA Wales Foundations Group for younger members. This builds upon our increased engagement with younger members through social media, our annual Awards programme and our CECA Wales Leadership Challenge, in partnership with the Armed Services. The Foundation Group comprises 12 of our aspiring young people who will help to develop and deliver our future work programmes and interface with the National Infrastructure Commission for Wales.

## Securing the health, safety and wellbeing of our workforce

Health, safety and wellbeing continues to be at the forefront of everything we do which reinforces our belief that every family has a right to expect their loved ones working in the industry to return home safely at the end of every working day.

A number of businesses across the UK, joined the CECA led “Stop. Make a Change” campaign in 2018 to specifically draw attention to and focus on workforce welfare issues. Much of this year’s campaign focused on mental health issues which is a huge challenge for us all.





## Cefnogi datblygiad ein pobl

Ar ôl i ni ddenu'r bobl iawn, rydym yn awyddus i gefnogi eu datblygiad.

Trefnu llwybr gyrfa clir oedd y man cychwyn. Sicrhau ein bod yn cynnig y rhaglenni hyfforddi, y prentisiaethau a'r cymwysterau iawn yw'r cam nesaf.

Datblygu cymwysterau TGAU, Lefel A a Phrentisiaethau Sylfaen penodol ar gyfer yr "amgylchedd adeiledig" oedd rhan gyntaf llwybr datblygu ein pobl – ac mae hyn yn digwydd gyda Cymwysterau Cymru. I'r sawl sy'n dilyn llwybr "seiliedig ar grefft", y cam nesaf oedd trefnu prentisiaeth o ansawdd da mewn paratoi'r tir / gweithio peiriannau ar gyfer peirianneg sifil ac mae'r ddarpariaeth hon yn ei lle mewn rhannau eang o Gymru erbyn hyn. Gan adeiladu ar sail hyn, rydym yn cefnogi datblygiad Prentisiaeth Uwch i Weithwyr Peirianneg Sifil ar gyfer crefftwyr sy'n dymuno symud ymlaen â'u crefft neu i fod yn ganger neu'n fforman. Felly, mae llwybr gyrfa clir yn dod i'r golwg ar gyfer aelodau CECA Cymru a byddwn yn adeiladu ar hyn dros y 12 mis nesaf.




Yn ogystal, rydym wedi ymestyn ein rhaglen hyfforddi a datblygu ni ar gyfer ein haelodau gan ganolbwyntio ar sgiliau contractiol, deddfwriaeth newydd yn benodol i Gymru, ffug dreialon ac ymwybyddiaeth wleidyddol.

Ac, yn olaf, rydym wedi sefydlu Grŵp Sylfeini CECA Cymru ar gyfer aelodau iau. Mae hyn yn adeiladu ar y cynnydd yn ein hymwneud ag aelodau ifanc trwy'r cyfryngau cymdeithasol, ein rhaglen Wobrau flynyddol a Her Arweinyddiaeth CECA Cymru, mewn partneriaeth â'r Lluoedd Arfog. Mae 12 o'n pobl ifanc uchelgeisiol yn aelodau o'r Grŵp Sylfeini a byddant yn helpu i ddatblygu a chyflenwi ein rhaglenni gwaith o hyn ymlaen ac yn bwynt cyswllt â Chomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru.

## Sicrhau iechyd, diogelwch a lles ein gweithlu

Mae iechyd, diogelwch a lles yn dal i gael blaenoriaeth yn ein holl waith ac mae hynny'n cadarnhau ein cred bod gan bob teulu hawl i ddisgwyl i'w hanwyliaid sy'n gweithio yn y diwydiant ddod adref yn ddiogel ar ddiwedd pob diwrnod gwaith.

Ymunodd nifer o fusnesau ledled Prydain â'r ymgyrch "Stop. Make a Change" dan arweiniad CECA yn 2018, er mwyn tynnu sylw'n benodol at broblemau'n ymwneud â lles gweithwyr a gweithredu ar hynny. Roedd rhan fawr o'r ymgyrch eleni'n canolbwyntio ar broblemau iechyd meddwl sy'n her enfawr i bawb ohonom.



# 4 Progress through Partnership

We always strive to lead and deliver great things on behalf of our members but we all know that positive change rarely happens through one organisation alone. That's why our partnerships with others are so important to us in driving forward our shared priorities.

## CECA Wales and the Armed Services

Our partnership with the Armed Services is entering it's third year and is continuing to grow. Last year we held our second "Leadership Challenge" for young CECA Wales members. This 2-day event saw participants from our 2018 Awards competition test their leadership, teamworking and engineering skills in a "challenging" environment.






## Wales Construction Federation Alliance (WCFA)

The Alliance represents the interests of a number of trade federations with a direct stake in the construction industry. Over the course of the year we have been able to take forward a number of initiatives including prompt payment, the use of retentions and developing relationships with governments, clients and other stakeholders.

## Wales Infrastructure Alliance

This partnership represents a broad range of infrastructure stakeholders who, by working together, are able to generate considerable leverage in promoting the value of infrastructure to the Welsh economy. Our engagement with the National Infrastructure Commission for Wales provides Commissioners with a focal point for seeking industry views.

## CECA Wales, CITB Cymru and Careers Wales

These partnerships are allowing us to reach out to a much wider range of potential entrants to the sector and ensuring that the opportunities are as visible as possible.





# 4 Cynnydd trwy Gydweithio

Er ein bod bob amser yn ymdrechu i arwain a chyflawni pethau mawr ar ran ein haelodau, mae pawb ohonom yn gwybod mai prin y daw newid er gwell trwy un sefydliad ar ei ben ei hun. Dyna pam y mae ein partneriaethau ag eraill mor bwysig i ni wrth hybu'r blaenoriaethau sydd gennym yn gyffredin.

## CECA Cymru a'r Lluoedd Arfog

Dyma fydd trydedd flwyddyn ein partneriaeth â'r Lluoedd Arfog ac mae'n dal i dyfu. Y llynedd, cynhaliwyd ein hail "Her Arweinyddiaeth" ar gyfer aelodau ifanc CECA Cymru. Yn y digwyddiad deuddydd, bu rhai a gymerodd ran yng nghystadleuaeth Gwobrau 2018 yn rhoi eu sgiliau arwain, gwaith tîm a pheirianneg ar brawf mewn amgylchedd "heriol".






## Cynghrair Ffederasiwn Adeiladu Cymru (WCFA)

Mae'r Gynghrair yn cynrychioli buddiannau nifer o ffederasiynau crefftau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r diwydiant adeiladu. Yn ystod y flwyddwyn, llwyddwyd i symud ymlaen â nifer o gynlluniau yn cynnwys talu'n brydlon, defnyddio symiau cadw (retentions) a meithrin perthynas â llywodraethau, cleientiaid a rhanddeiliaid eraill.

## Cynghrair Seilwaith Cymru

Dyma bartneriaeth sy'n cynrychioli amrediad eang o randdeiliaid ym maes seilwaith. Trwy gydweithio, gallant gael cryn ddylanwad yn hyrwyddo gwerth seilwaith i economi Cymru. Mae ein hymwneud ni â Chomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru yn rhoi pwynt cyswllt i'r Comisiynwyr ar gyfer ceisio barn y diwydiant.

## CECA Cymru, CITB Cymru a Gyrfa Cymru

Mae'r partneriaethau hyn yn rhoi cyfle i ni i ymestyn allan at amrediad ehangach o lawer o ddarpar weithwyr ar gyfer y sector ac i sicrhaubod y cyfleoedd i'w gweld mor amlwg ag y bo modd.



# Celebrating success

## The contracting sector is well known for “working hard and playing hard” and this is why, over the course of a year, it’s important that we come together to celebrate successes and, sometimes, just to relax!

### CECA Wales Annual Golf Day 2018 [1]

In October members and guests met, once again, at Royal Porthcawl Golf Course to compete for our CECA Wales trophies. The triumphant team was Costain. Despite an uncertain weather forecast glorious weather finally prevailed, albeit a bit breezy, which all contributed to a great day of golf and the opportunity to, temporarily set aside the challenges of work!

### CECA Wales Leadership Challenge 2018 [2]

2018 saw our second CECA Wales Leadership Challenge for our Annual Award winners, in partnership with the Armed Services.


1


2


3

# Dathlu llwyddiant

## Mae’r hen ddywediad “gweithio’n galed, chwarae’n galed” yn berthnasol iawn i’r sector contractio a dyna pam, yn ystod y flwyddyn, mae’n bwysig i ni gael dod ynghyd i ddathlu llwyddiant ac, weithiau, ddim ond i ymlacio!

### Diwrnod Golff Blynyddol CECA Cymru 2018 [1]

Ym mis Hydref, daeth aelodau a gwahoddedigion ynghyd, unwaith eto, ar Gwrs Golff Porthcawl i gystadlu am dlysau CECA Cymru. Costain oedd y tîm buddugol. Er bod rhagolygon y tywydd yn ansicr, cafwyd tywydd hyfryd ond braidd yn wyntog a chafwyd diwrnod gwych o golff a’r cyfle i anghofio am y gwaith dros dro!

### Her Arweinyddiaeth CECA Cymru 2018 [2]

Yn 2018 cynhaliwyd ail Her Arweinyddiaeth CECA Cymru ar gyfer enillwyr ein Gwobrau Blynyddol, mewn partneriaeth â’r Lluoedd Arfog.

## CECA Wales Annual Awards 2018

The winners of the CECA Wales Annual Awards 2018 (pictured left to right below) were:


**Jack Lewis** of Encon Construction
Most Promising Apprentice 2018

**Fernanda Tranjan** of Dawnus Construction
Most Promising Trainee Civil Engineer (non-Graduate) 2018.

**Abigail Wilson** of Alun Griffiths
Most Promising Trainee Civil Engineer (Graduate) 2018

**Peter Tomlinson** of Jones Bros (Ruthin)
Lifetime Contribution to the Industry






## CECA Wales Annual Dinner 2018 [3]

Last year's Annual Dinner proved to be a great success with our guest speaker Gareth "Alfie" Thomas and our Director, Ed Evans, providing a "question and answer" session with some added "audience participation" for good measure!

## Cross Sector Senedd Celebrations 2018 [4]

Our CECA Wales Award Winners for 2018 joined their peers from across the industry at the Cross Sector Senedd Celebrations organised by Constructing Excellence in Wales and hosted by Lee Waters AM, the recently appointed Deputy Minister for Economy and Transport. This annual gathering continues to provide a great opportunity to celebrate the best of the industry.








## Gwobrau Blynyddol CECA Cymru 2018

Enillwyr Gwobrau Blynyddol CECA Cymru 2018 (o'r chwith i'r dde yn y llun isod) oedd:

**Jack Lewis** o Encon Construction
Prentis Mwyaf Addawol 2018

**Fernanda Tranjan** o Dawnus Construction
Hyfforddai Peiriannydd Sifil Mwyaf Addawol (heb radd) 2018.

**Abigail Wilson** o Alun Griffiths
Hyfforddai Peiriannydd Sifil Mwyaf Addawol (â gradd) 2018

**Peter Tomlinson** o Jones Bros (Rhuthun)
Cyfraniad Oes i'r Diwydiant






## Cinio Blynyddol CECA Cymru 2018 [3]

Roedd Cinio Blynyddol y llynedd yn llwyddiant ysgubol gyda'n siaradwr gwadd Gareth "Alfie" Thomas a'n Cyfarwyddwr, Ed Evans, yn cymryd rhan mewn sesiwn "holi ac ateb" a chyfle i'r "gynulleidfa gyfrannu" hefyd!

## Dathliadau Traws-Sector yn y Senedd 2018 [4]

Ymunodd Enillwyr Gwobrau CECA Cymru 2018 ag eraill o'r diwydiant yn Nathliadau Traws-Sector y Senedd a drefnwyd gan Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru dan nawdd Lee Waters AC, a oedd newydd ei benodi'n Ddirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth. Mae hwn yn gyfle gwych i ddathlu goreuon y diwydiant bob blwyddyn.

# Looking forward to the next 12 months

## So, what's ahead for CECA Wales in 2019? What are we going to do?

## We've already set out our themes for the future – the "4-P's":

1 Promotion 2 Procurement 3 People 4 Partnership

**Why these? These are based on feedback from members and each of these themes allow us to have simpler conversations with clients, politicians and policy makers in key policy areas.**

Our first priority is all about promoting the value of infrastructure investment and, in Wales, that means doing it in line with the Wellbeing of Future Generations Act. We've already published our report, "Transporting Our Future Generations", and launched it with the Future Generations Commissioner, Sophie Howe, at the Senedd. That's our statement of intent that we want to work with the Commission. But we need the Commissioner and politicians to help us. At the end of the day our future generations will still need infrastructure! And that goes for the National Infrastructure Commission for Wales too.

**Procurement** is still a tough nut to crack! Just to say that we'll continue to use our report "Streamlining Public Procurement" wherever and whenever we can with clients, politicians and policy makers to influence changes – it's hard and slow work but we need to see progress.

**People** are the lifeblood of our industry but attracting people to the industry continues to be a challenge. If we are to **"attract the brightest and the best"** in sufficient numbers to meet the predicted workload then we need to develop a far more diverse resource pool than we currently have. The challenges ahead, in terms of increased automation and digitisation, create significant opportunities to appeal to a younger and more diverse audience. But our "offer" needs to change and we need to be far more "savvy" and far more flexible in our approach to recruitment.

And our **partnerships** with others are so important to us in driving forward our shared priorities and we'll be consolidating and growing these during the next 12 months.

Finally, there's no doubt that we need to improve efficiency and productivity across the sector – but we need to do it in partnership with our clients. And let's not be scared of shouting out the word "profitability". Most of us are working to ridiculously low profit margins with unsustainable levels of risk transfer. What other sector would accept this? If we're to make the "step change" we need to make in terms of innovation then we need to be able to reinvest profits into our businesses.

So, as we look forward to the year ahead, let's remind ourselves and others of the huge contribution that we continue to make to the wellbeing of Wales.

> "We'll continue to raise the profile of CECA Wales and our members amongst clients, politicians and policy makers and keep driving these messages home."



# Edrych ymlaen at y 12 mis nesaf

## Felly, beth fydd gan 2019 i'w gynnig i CECA Cymru? Beth fyddwn ni'n ei wneud?

## Rydym eisoes wedi pennu ein themâu ar gyfer y dyfodol – y "pedair C":

1 Codi proffil

2 Caffael

3 Cefnogi Pobl

4 Cydweithio

**Pam y rhain? Penderfynwyd ar y rhain ar sail ymateb ein haelodau a bydd pob un o'r themâu yn ein galluogi i gael sgyrsiau symlach â chleientiaid, gwleidyddion a gwneuthurwyr polisïau mewn meysydd polisi allweddol.**

Diben ein blaenoriaeth gyntaf yw tynnu sylw at werth buddsoddi mewn seilwaith ac, yng Nghymru, mae hynny'n golygu ei wneud yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydym eisoes wedi cyhoeddi ein hadroddiad, "Cludo Cenedlaethau'r Dyfodol", a'i lansio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Sophie Howe, yn y Senedd. Dyna ein datganiad o fwriad ein bod yn dymuno cydweithio â'r Comisiwn. Ond mae arnom angen i'r Comisiynydd a'r gwleidyddion ein helpu ni. Beth bynnag ddaw, bydd angen seilwaith ar genedlaethau'r dyfodol. Ac mae hynny'n wir am Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru hefyd.

Mae **Caffael** yn dal yn broblem ddyrys! Yr unig beth a ddywedwn yw y byddwn yn dal i ddefnyddio'n hadroddiad "Symleiddio Prosesau Caffael Cyhoeddus" lle bynnag a phryd bynnag y gallwn gyda chleientiaid, gwleidyddion a gwneuthurwyr polisïau i sbarduno newidiadau – mae'n waith anodd ac araf ond mae angen i ni weld cynnydd.

**Cefnogi pobl** – Pobl yw enaid ein diwydiant ond mae'n dal yn anodd denu pobl iddo. Er mwyn denu digon o'r "**disgleiriaf a'r gorau**" i wneud y gwaith y disgwylir y bydd ar gael, mae angen i ni ddatblygu cronfa adnoddau sy'n llawer mwy amrywiol nag ydyw ar hyn o bryd. Mae'r heriau sydd o'n blaen, o ran cynnydd mewn awtomeiddio a digideiddio, yn creu cyfleoedd da i apelio at gynulleidfa iau a mwy amrywiol. Ond mae angen i ni newid ein "harlwy" a bod yn llawer mwy craff ac ymarferol ac yn llawer mwy hyblyg yn ein hagwedd at recriwtio.

Ac mae **cydweithio** ag eraill yn bwysig i ni er mwyn rhoi hwb i'r blaenoriaethau sydd gennym yn gyffredin ac atgyfnerthu a thyfu dros y 12 mis nesaf.

Yn olaf, yn sicr mae angen i'r sector fod yn fwy effeithlon a chynyrchiol – ond mae angen i ni weithio mewn partneriaeth â'n cleientiaid i sicrhau hynny. A does dim angen i ni ofni gweiddi'r gair "proffidioldeb". Mae elw'r rhan fwyaf ohonom yn hurt o isel ac mae'r lefelau trosglwyddo risg yn anghynaliadwy. Pa sector arall fyddai'n derbyn hyn? Os ydym am sicrhau newid sylweddol er gwell wrth arloesi, mae angen i ni allu ailfuddsoddi elw yn ein busnesau.

Felly, wrth edrych ymlaen at y flwyddyn sydd o'n blaen, dewch i ni'n hatgoffa'n hunain ac eraill o'r cyfraniad enfawr yr ydym yn dal i'w wneud at les Cymru.

*"Byddwn yn dal i godi proffil CECA Cymru a'n haelodau ymhlith cleientiaid, gwleidyddion a gwneuthurwyr polisïau a byddwn yn dal ati i fwrw'r maen i'r wal."*

ceca

Working for Infrastructure
Adeiladwaith yw'n Gwaith

"Representing Wales' largest and smallest civil engineering contractor businesses. Our members build the infrastructure that our nation needs to prosper."

"Cynrychioli busnesau mwyaf a lleiaf Cymru ym maes contractwyr peirianneg sifil. Ein haelodau ni sy'n adeiladu'r seilwaith y mae ei angen ar ein cenedl er mwyn ffynnu."

**Ed Evans**
Director Civil Engineering Contractors Association (CECA) Wales
Cyfarwyddwr, Cymdeithas Contractwyr Peirianneg Sifil (CECA) Cymru

Ed.Evans@cecawales.co.uk
07717 687088 • 029 2081 1116
www.ceca.co.uk @ceca_wales